Creu cynhwysiant cymdeithasol, ysbrydoli uchelgais artistig a darparu adnodd ar gyfer y gymuned ehangach

centre CELF o Gwmpas

Polisi Iaith Gymraeg - drafft wedi'i ddiweddaru

Llofnodwyd:	**Dyddiad:**
Cadeirydd Ymddiriedolwyr Celf o Gwmpas	**Dyddiad adolygu: 14eg Medi 2021**

Datganiad o fwriad:

Mae Celf o Gwmpas yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru ac fel rhan hanfodol o gefnogi bywyd diwylliannol bywiog a ffyniannus yng Nghymru.

Mae cynllun corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru “Er Budd i Bawb” yn pwysleisio'r angen am hygyrchedd ac yn cydnabod bod llawer o rwystrau yn dal i fodoli. Mae Celf o Gwmpas yn croesawu’r weledigaeth yn y ddogfen hon ac wrth ddymuno bod yn rhan o sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni, mae’n cydnabod bod angen i ni adnabod yr heriau a nodir yn y cynllun.

Bydd Celf o Gwmpas yn gweithio i ddatblygu’n raddol ein ‘cynnig’ Cymraeg ar draws ein rhaglenni celfyddydau ac o fewn isadeiledd y sefydliad.

Cyfrifoldebau:

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr:

Mae ymddiriedolwyr yn cydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

- Bwrdd Ymddiriedolwyr Celf o Gwmpas sy'n gyfrifol am weithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn yn gyffredinol.
- Mae ymddiriedolwyr yn cydnabod bod derbyn arian o rai ffynonellau yn gofyn am gadw at safonau yr iaith Cymraeg.
- Mae ymddiriedolwyr yn cydnabod yr angen i fonitro cynnydd y Cynllun Gweithredu Cymraeg yn rheolaidd a darparu cefnogaeth ar gyfer dysgu a gwella parhaus.

Cyfrifoldebau staff:

- Mae'r staff yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymwybodol o Bolisi Iaith a chynllun gweithredu Cymraeg.
- Mae gan staff gyfrifoldeb i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yng ngwaith Celf o Gwmpas.
- Anogir staff i ddatblygu neu adeiladu ar eu sgiliau a'u hyder Cymraeg eu hunain

Trefniadau a gweithdrefnau

- Parhau i weithio gyda swyddog Cynnig Gweithredol Cymraeg PAVO er mwyn datblygu safonau a fydd yn sicrhau ein bod yn gwella ein sgiliau a'n cynnig Cymraeg yn raddol, gan gynnwys o fewn Canolfan Celf a Stiwdio Celf.
- Sicrhau monitro systematig o'r defnydd o Gymraeg ar draws ein rhaglenni celfyddydau a'n seilwaith mewnol.
- Cynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg yn y cylch cynllunio prosiect blynyddol ac yng nghynigion prosiect.
- Adolygu a diweddaru'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn flynyddol
- Adolygu'r Strategaeth Farchnata a'r Strategaeth Codi Arian yn flynyddol i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried yn briodol a hyrwyddo'r Gymraeg.

Codi ymwybyddiaeth a hyfforddi

- Briffio ar gyfer staff newydd yn ystod y cyfnod sefydlu
- Hyfforddiant gloywi blynyddol i'r holl staff ac Ymddiriedolwyr
- Ystyriaeth i geisiadau am amser i ffwrdd a / neu arian i fynychu cyrsiau Cymraeg